Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri
Adroddiad Adolygu

Gorffennaf 2016

Y Broses Adolygu

1. Mae angen adolygiad llawn o Gynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLl) bob pedair blynedd o adeg ei fabwysiadu. Cafodd y Cynllun ei fabwysiadu ym mis Gorffennaf 2011, ac felly mae'n amserol cynnal yr adolygiad yn awr. Ei ddiben yw nodi p'un a yw'r Cynllun yn parhau i fod yn gyfredol ac os nad yw, pa ddiwygiadau sydd eu hangen a pham, er mwyn ystyried amgylchiadau cenedlaethol a lleol sydd wedi newid. Gall hefyd fod yn wir nad yw'r Cynllun wedi perfformio'n dda yn erbyn y dangosyddion targed, fel y'u nodwyd yn y fframwaith monitro gwreiddiol.

2. Yr Adroddiad Adolygu hwn yw dechrau'r broses adolygu ac mae'n ceisio amlinellu;

- Pa faterion sydd wedi cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad?
- Yn deillio o'r adolygiad, pa ddiwygiadau sydd eu hangen i'r Cynllun a pham, ar sail y dystiolaeth a archwiliwyd?
- Y goblygiadau, os o gwbl, o'r diwygiadau a ragwelir ar y rhannau o'r cynllun nad ydynt yn newid?
- Y ffurf o ddiwygiad sydd ei angen - naill ai dilyn gweithdrefn adolygu ffurf lawn neu fer yn seiliedig ar y newidiadau sydd eu hangen? Bydd ffurf adolygu fer yn cynnwys adolygiad cyffyrddiad ysgafn lle nad oes angen llawer o newidiadau am fod y Cynllun yn parhau i fod yn gadarn ar gyfer defnydd yn y dyfodol. Mae adolygiad llawn yn cynnwys newidiadau ar raddfa eang i'r Cynllun, sydd eu hangen oherwydd y nodwyd materion arwyddocaol sydd angen eu newid - bydd newidiadau o'r fath yn arwain at gynllun newydd.

Barn y Rhanddeiliaid

3. I lywio'r broses adolygu, paratôdd yr Awdurdod bapur trafod er mwyn cael barn rhanddeiliaid allweddol ar y materion a nodwyd, beth ddylid ei ystyried yn yr adolygiad a'r math o newidiadau y dylid eu gwneud i CDLl Eryri, yn ogystal â'r ffurf o adolygiad a gynigir. Ceir rhestr lawn o'r rhanddeiliaid allweddol y cysylltwyd â hwy i hysbysu'r Adroddiad Adolygu yn Atodiad 1.

4. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gwerthfawrogi'r berthynas agos sydd ganddo â Chynghorau Cymuned yr ardal, a bu'r berthynas hon yn ganolog i ddatblygu polisïau yn CDLl Eryri a fabwysiadwyd. Yn ystod mis Mai 2014, trefnwyd digwyddiadau Cyngor Cymuned mewn tri lleoliad ar draws y Parc Cenedlaethol i gyflwyni diweddariad ar waith yr Awdurdod ac ar broses adolygu CDLl Eryri, er mwyn cael mewnbwn y Cynghorau Cymuned ar ba ardaloedd/ polisïau yr hoffent eu newid. Mae'r Awdurdod hefyd wedi gwahodd

y Cynghorau Cymuned i roi sylwadau ar y papur trafod a chynhwysir yr ymatebion a dderbyniwyd yn Atodiad 2.

5. Hefyd trafodwyd y newidiadau posibl i CDLl Eryri gydag asiantau cynllunio'r Awdurdod yn y cyfarfod Asiantau Cynllunio blynyddol ar 28ain Ionawr 2016. Gwahoddwyd asiantau cynllunio i gyflwyno sylwadau anffurfiol ar y newidiadau posibl i CDLl Eryri a nodwyd gan yr Awdurdod, ac i awgrymu meysydd eraill o'r Cynllun sydd, yn eu barn hwy, angen eu newid. Mae'r sylwadau a dderbyniwyd gan asiantau hefyd wedi eu cynnwys yn atodiad 2.

6. Ar ôl ystyried barn rhanddeiliaid, maent yn gyffredinol yn cytuno â'r Awdurdod ar y materion a ystyriwyd fel rhan o'r broses adolygu, a beth sydd angen ei newid a pham. Ni nododd yr un o'r rhanddeiliaid yr angen am unrhyw newidiadau i'r strategaeth CDLl Eryri bresennol ac roedd consensws mai'r broses ffurf adolygu fer oedd y dull mwyaf priodol o symud ymlaen. Amlygodd y rhanddeiliaid yr angen i ystyried effaith bosibl dynodiad Ardal Fenter Eryri, a'r angen i adolygu'r prif bolisïau tai i sicrhau eu bod yn cynorthwyo i ddod â datblygiadau ymlaen. Mae'r Awdurdod eisoes wedi nodi y bydd yn parhau i ystyried effaith dynodiad yr ardal fenter wrth i adolygiad y cynllun fynd yn ei flaen, yn ogystal â chasglu tystiolaeth bellach ar hyfywedd a chyflenwadwyedd, er mwyn galluogi'r Awdurdod i ystyried diwygio'r prif bolisïau tai i sicrhau eu bod yn cynorthwyo gyda chyflenwi'r nifer o dai marchnad a thai fforddiadwy angen lleol sydd eu hangen. Mae gwybodaeth bellach am farn rhanddeiliaid allweddol ac ymateb yr Awdurdod wedi ei chynnwys yn Atodiad 2.

Papurau Cefndir

7. Mae'r Awdurdod wedi diweddaru rhai o'r Papurau Cefndir gwreiddiol a baratowyd fel rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer CDLl Eryri. Cynhwysir rhestr o Bapurau Cefndir a baratowyd gan yr Awdurdod fel tystiolaeth i gefnogi'r datganiadau yn yr adroddiad hwn, ynghyd â dogfennau tystiolaeth eraill ,yn Atodiad 3. Gellir gweld y rhain ar wefan yr Awdurdod. Mae Papurau Cefndir eraill a baratowyd ar gyfer CDLl Eryri gwreiddiol yn dal yn berthnasol ond nid ydynt yn hanfodol ar gyfer yr Adroddiad Adolygu. Maes o law, wrth i'r broses adolygu symud ymlaen, byddant yn cael eu diweddaru a'u diwygio yn ôl yr angen. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn tynnu sylw at yr angen i gael rhagor o wybodaeth a fydd yn cael ei chasglu wrth i'r broses adolygu fynd yn ei blaen. Cesglir unrhyw dystiolaeth ychwanegol, os ystyrir bod ei hangen, i gyfiawnhau'r newidiadau arfaethedig. Ynddo'i hun, bydd yr Adroddiad Adolygu hwn yn ffurfio rhan o'r dystiolaeth gefndir pan fydd CDLl Eryri, fel y'i diwygiwyd, yn cael ei gyflwyno ar gyfer Archwiliad Cyhoeddus.

Beth a Ystyriwyd

8. Y lle mwyaf rhesymegol i ddechrau adolygiad yw ymchwilio i berfformiad Adroddiadau Monitro Blynyddol CDLl Eryri (AMBau)[1]. Ers ei fabwysiadu yn 2011 mae tri AMB ffurfiol ac un adroddiad anffurfiol wedi cael eu cynhyrchu yn seiliedig ar y flwyddyn rannol gyntaf o'i fabwysiadu. Mesurodd yr AMBau berfformiad y Cynllun yn erbyn set o ddangosyddion gyda thargedau penodol. Hefyd nodwyd ffactorau cynllunio cenedlaethol neu allanol a dadansoddwyd eu heffaith bosibl, yn ogystal ag unrhyw newidiadau lleol perthnasol eraill a oedd yn disgyn y tu allan i'r broses fonitro arferol. Mae'r dadansoddiad AMB yn dilyn trefn penodau CDLl Eryri ac ar ddiwedd pob pennod ceir sylwebaeth fer ar y goblygiadau tebygol i adolygiad y Cynllun. Ystyrir bod y gwaith monitro a wnaed hyd yma yn dechrau dangos tuedd, a gellir dod i'r casgliadau cyffredinol canlynol yn awr:

   - Mae'r strategaeth bresennol yn parhau i fod y dull cywir i'w ddilyn a gellir ei dreiglo ymlaen am gyfnod amser estynedig – mae'r pwyslais ar gynnal hyfywedd a bywiogrwydd cymunedau lleol mewn modd cynaliadwy yn parhau i fod yn briodol i'r Parc Cenedlaethol. Bydd treiglo ymlaen y cyfnod amser ar gyfer y Cynllun yn ei gwneud yn ofynnol nodi tir ychwanegol yn unol â'r strategaeth ofodol bresennol.

   - Ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiadau sylweddol sy'n tanseilio pwrpasau statudol y Parc Cenedlaethol na pholisïau strategol y Cynllun. Bu polisïau CDLl Eryri yn effeithiol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio defnydd tir ac wrth amddiffyn apeliadau.

   - Mae gan y Cynllun gyflenwad mwy na digonol o dir ar gyfer tai (8.3 mlynedd Cydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2014. Yn astudiaeth 2015, roedd y cyflenwad yn 7 mlynedd).

   - Mae cyfanswm y nifer o anheddau fforddiadwy a gwblhawyd wedi cyfarfod yn fras â'r targed.

   - Mae graddfa'r datblygiad newydd yn Eryri yn gymharol fach ac o ganlyniad gall un datblygiad annisgwyl ar hap-safle neu safle mawr a gwblhawyd o fewn blwyddyn esgor ar ganlyniadau sy'n golygu mynd dros y % darged ar gyfer haen anheddiad penodol e.e. mae'r ffaith na roddwyd caniatâd yn y Bala a Dolgellau ac y rhoddwyd caniatâd ar hap-safle yn Harlech yn ystod 2014-15 wedi ystumio'r ffigyrau targed ar gyfer yr haenau aneddiadau o

[1] Adroddiad Monitro Blynyddol CDLl Eryri 2011-12 (anffurfiol), Adroddiad Monitro Blynyddol CDLl Eryri 2012-13, Adroddiad Monitro Blynyddol CDLl Eryri 2013-14, Adroddiad Monitro Blynyddol CDLl Eryri 2014-15.

blaid Aneddiadau Gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'r strategaeth ddatblygu ofodol yn cael ei chyflawni gyda chaniatâd a roddwyd ac eiddo a gwblhawyd yn unol â pholisi datblygu gofodol y cynllun, ac mae'n gyffredinol yn unol â'r targedau a osodwyd ers ei fabwysiadu yn 2011. Ni ystyrir y byddai cyfradd uwch o ddatblygiad yn ddymunol yn y Parc Cenedlaethol, a byddai'n anodd ei gyflawni'n ymarferol.

- Mae dynodiad Ardal Fenter Eryri ar safleoedd yn Nhrawsfynydd a Llanbedr â photensial i greu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy newydd. Gan nad yw'r safleoedd wedi cael eu dyrannu'n ffurfiol yn CDLl Eryri byddant angen cael eu nodi mewn Cynllun diwygiedig a pharatoi polisi newydd i reoleiddio datblygiadau newydd.

- Caniatawyd 64 o gynlluniau hydrodrydanol yn Eryri ers mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Eryri gyda'r rhan fwyaf o'r rhain yn gynlluniau arallgyfeirio amaethyddol, yn creu incwm ychwanegol ar ffermydd.

- Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau i ddatblygu safleoedd cyflogaeth newydd. Fodd bynnag, mae cyfleoedd gwaith newydd wedi cael eu creu drwy gynlluniau arallgyfeirio amaethyddol, addasu adeiladau gwledig presennol i lety gwyliau tymor byr neu brosiectau eraill yn gysylltiedig â thwristiaeth, gan greu swyddi yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae'r Awdurdod hefyd wedi cefnogi cynigion newydd ar ymylon y Parc Cenedlaethol fel Surf Snowdonia yn Nolgarrog, a fydd yn dod â chyfleoedd gwaith newydd i'r ardal.

- Ni chafwyd unrhyw ddatblygu o bwys, neu ond ychydig iawn o ddatblygu o bwys, i gael effaith ar bolisïau eraill yn y Cynllun.

- Defnyddiwyd y rhan fwyaf o'r polisïau yn y Cynllun ac nid oes unrhyw dystiolaeth o wactod polisi.

9. I gael darlun manylach o'r newidiadau posibl sydd eu hangen, trafodir pob pennod o'r CDLl Eryri yn eu tro yn awr i ddangos yn fanylach beth a ystyriwyd a pha ddiwygiadau posibl y bydd o bosib eu hangen.

Dylanwadau ar y Strategaeth Ofodol

10. Mae pwrpasau'r Parc Cenedlaethol wedi aros yr un fath er, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad ar Dirweddau Cenedlaethol: Gwireddu eu Potensial[2], argymhellwyd i Lywodraeth Cymru y dylid diwygio'r pwrpasau ac ychwanegu trydydd pwrpas i gefnogi datblygu economaidd cynaliadwy. Ni ystyrir y byddai'r newidiadau arfaethedig yn newid CDLl Eryri yn sylfaenol ond byddai'n cefnogi'r weledigaeth a'r amcanion presennol ymhellach. Mae'r Llywodraeth eto i ymateb yn ffurfiol i'r adroddiad, er bod gwaith pellach yn

[2] Tirweddau Cenedlaethol: Gwireddu eu Potensial - Yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru Gorffennaf 2015

mynd rhagddo, ac felly nid yw'n bosibl dyfalu ymlaen llaw pryd, neu os, y bydd y pwrpasau newydd yn cael eu mabwysiadu'n statudol cyn i'r CDLl Eryri gael ei ddiwygio.

11. Mae newidiadau mewn deddfwriaeth genedlaethol, fel Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 wedi atgyfnerthu llawer o amcanion sydd eisoes yn Cynllun, megis cefnogi bywiogrwydd diwylliannol lleol a chefnogaeth i'r iaith Gymraeg. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cynnwys y gofyniad i Gyfoeth Naturiol Cymru gynhyrchu Datganiadau Ardal a fydd yn cynnwys y cyfleoedd, heriau a blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol ar lefel leol. Pe bai'r Datganiadau Ardal hyn yn cael eu cynhyrchu mewn pryd ar gyfer adolygiad y CDLl, yna bydd angen ystyried eu cynnwys.

12. Mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC), sef y cynllun datblygu cenedlaethol defnydd tir sy'n amlinellu amcanion gofodol cynllunio cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf, eto i'w baratoi. Bydd Cynllun Gofodol Cymru (sydd wedi hysbysu Strategaeth Datblygu CDLl Eryri) yn parhau i fod yn berthnasol hyd nes y mabwysiedir y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

13. Mae gan y Cynllun Integredig Sengl ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd 2013-17 dri phrif ddeilliant neu flaenoriaeth. Y rhain yw Cymunedau Ffyniannus, Cymunedau Iach, a Chymunedau Diogel. Mae CDLl Eryri yn cefnogi nodau ac amcanion y cynllun hwn ac nid yw'n gwrthdaro â hwy. Mae gan Gynllun Integredig Sengl Conwy flaenoriaethau tebyg sydd hefyd yn cael eu cefnogi gan CDLl Eryri.

14. Mae Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn cael ei adolygu ar yr un pryd â CDLl Eryri. Ni ystyrir bod angen newidiadau ar raddfa eang i'r Cynllun Rheoli ar wahân i ddiweddaru'r camau gweithredu a threiglo eraill ymlaen. Mae'r "nodweddion arbennig" a "gweledigaeth" y Parc yn gyffredin i'r ddau gynllun, a byddant yn aros yn ddigyfnewid.

15. Ers mabwysiadu CDLl Eryri, mae Conwy wedi mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol ac mae Gwynedd a Ynys Mon wedi cyflwyno'r CDLl i'w Archwilio. Mae'r Parc Cenedlaethol wedi cymryd i ystyriaeth y dyraniadau a pholisïau yn y ddau gynllun er mwyn mesur eu dylanwad o fewn y Parc Cenedlaethol. Mae effaith datblygiadau ar y ffin y Parc Cenedlaethol o bwysigrwydd arbennig, mewn aneddiadau allweddol megis Llanrwst, Llanberis a Phorthmadog. Wrth baratoi CDLl Eryri, nododd yr Awdurdod wyth 'Parth Dylanwad' o fewn ac yn pontio ffin y Parc Cenedlaethol. Roedd gan y parthau dylanwad nodweddion tebyg a chysylltiadau cymunedol cryf. Hefyd nodwyd canolfannau allweddol o fewn a thu allan i'r Parc Cenedlaethol ym mhob parth dylanwad ac mae'r rhain yn hysbysu'r Strategaeth Datblygu Gofodol. Hefyd nodwyd prif lwybrau trafnidiaeth, meysydd cyflogaeth allweddol, cyfleoedd addysg bellach a gwasanaethau allweddol i bob parth. Fel rhan o'r adolygiad CDLl Eryri, mae'r Awdurdod wedi edrych eto ar y Papur Cefndir Parthau Dylanwad ac yn credu

bod y parthau dylanwad, cysylltiadau'r canol a chymunedol allweddol yn parhau i fod yn berthnasol, ac nid yw'n rhagweld unrhyw newidiadau arwyddocaol a fyddai'n dylanwadu ar strategaeth CDLl Eryri. Bydd angen diweddaru'r Papur Cefndir fel rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer adolygiad CDLl Eryri, er mwyn sicrhau bod yr holl ddata yn gyfredol.

Materion Allweddol, Heriau a Gyrwyr Newid

16. Y materion allweddol a nodwyd yn y cynllun presennol yw;

- Yr Amgylchedd Naturiol
- Amgylchedd Diwylliannol a Hanesyddol
- Cymunedau Iach a Chynaliadwy
- Yr Economi Wledig
- Hygyrchedd a Chynhwysiad

17. Mae'r holl faterion hyn yn parhau i fod yn berthnasol a gellir eu cario ymlaen yn yr adolygiad heb eu newid.

Gweledigaeth ac Amcanion Gofodol

18. Mae'r weledigaeth bresennol ar gyfer CDLl Eryri yn cael ei rhagamcanu i 2035, sy'n debygol o fod tu hwnt i ddyddiad gorffen y CDLl Eryri diwygiedig. Mae'n parhau i fod yn berthnasol ac yn taro'r cydbwysedd iawn rhwng gwarchod yr amgylchedd, ymgysylltu â chymunedau ac annog ffyniant economaidd yn seiliedig ar adnoddau naturiol. Erbyn hyn, mae'r pwyslais ar addasu i newid yn yr hinsawdd a cheisio creu economi carbon isel o bosibl yn bwysicach nag erioed. Hefyd dengys tystiolaeth o'r AMBau bod swyddi'n cael eu creu drwy weithgareddau antur yn seiliedig ar yr amgylchedd naturiol naill ai o fewn neu ar gyrion y Parc Cenedlaethol. Mae'r adroddiad a baratowyd gan Arup yn 2013 hefyd yn tynnu sylw at werth economaidd y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru.[3] O'r weledigaeth, lluniwyd cyfres o 16 o amcanion. Mae pob yn parhau'n berthnasol, ac felly byddant yn cael eu cadw ar eu ffurf bresennol.

Y Strategaeth Ddatblygu

19. Mae'r strategaeth ddatblygu yn seiliedig ar ddynodiad yr Awdurdod Cynllunio Lleol fel Parc Cenedlaethol a'r angen i gael gradd a graddfa o newid sy'n gydnaws â hynny. Mae rhywfaint o newid hefyd yn cael ei ddylanwadu gan allu'r ardal i newid yn ddiwylliannol ac yn amgylcheddol. Mae cyflymder y newid yn gymharol araf ac nid oes marchnad fywiog ar gyfer tai na thwf economaidd. Bu'r rhan fwyaf o'r cyfleoedd gwaith gorau mewn twristiaeth antur, ac mae hyn yn debygol o barhau gyda mwy o bwyslais ar faterion iechyd a lles. Bydd dynodiad Ardal Fenter Eryri a'i dyraniad yn CDLl Eryri yn

[3] Rhoi Gwerth ar Barciau Cenedlaethol Cymru. Arup 2013

creu cyfleoedd cyflogaeth pellach. Bydd y swyddi a grëir yn ailsefydlu'r rheiny a gollwyd yn raddol o'r gweithgareddau blaenorol ar y safleoedd, ac mae'n annhebygol o effeithio ar y raddfa a lleoliad twf tai yn y dyfodol ac felly'n annhebygol o gael effaith ar y Strategaeth bresennol.

20. Mae'r strategaeth ddatblygu ofodol yn seiliedig ar geisio darparu peth datblygiad, serch fod hynny ar raddfa fechan, i bob un o'r 74 o aneddiadau yn y Parc. Mae gan y ddau anheddiad mwyaf, Dolgellau a'r Bala, boblogaethau o tua 2400 a 1950, yn eu tro. Mae 5 anheddiad gwasanaeth a 39 anheddiad eilaidd sydd wedi'u gwasgaru'n eithaf cyfartal ledled ardal y cynllun. Felly, mae'n bwysig sylweddoli bod aneddiadau yn fach ac yn wasgaredig, yn cefnogi cyfanswm poblogaeth o ddim ond 25,700 o bobl.

21. Mae hygyrchedd a fforddiadwyedd tai yn ffactor hanfodol i sicrhau hyfywedd tymor hir cymunedau gwledig Parc Cenedlaethol Eryri. Mae harddwch yr ardal ac ansawdd bywyd a'r dirwedd a gynigir yn rhoi pwysau ar y farchnad dai leol. Yn ogystal, mae cynhwysedd aneddiadau Eryri i amsugno mwy o ddatblygiadau tai yn cael ei gyfyngu'n ddifrifol oherwydd tirwedd a rhesymau ffisegol. O ganlyniad i natur y tir a chyfyngiadau eraill megis risg llifogydd a datblygu dynodiadau bywyd gwyllt, rhaid ystyried cynigion datblygu yn ofalus er mwyn sicrhau nad ydynt yn gwrthdaro â phwrpasau'r Parc Cenedlaethol. Yn wyneb y ffaith bod y cyfleoedd yn prinhau ar gyfer darparu tai yn y Parc Cenedlaethol heb amharu ar ei nodweddion amgylcheddol, mae'n hanfodol bod tai sydd newydd eu hadeiladu yn parhau i gael eu cyfiawnhau gan angen yn hytrach na galw.

22. O fewn cymunedau'r Parc Cenedlaethol, mae cysylltiadau cymdeithasol a theuluol cryf yn cynhyrchu ymrwymiad cryf i barhau i fyw yn y gymuned gartref. Felly, bu'r pwyslais ar raddfa fach o dai newydd, yn seiliedig yn bennaf ar angen lleol fforddiadwy. Credir bod crynodiad o ddatblygiadau newydd mewn ychydig o leoedd, neu chwilio am gyfradd uwch o dwf tai yn rhywbeth annymunol, ac na fyddai o fudd i nifer o'r cymunedau gwasgaredig ar draws y Parc Cenedlaethol. Yn y ddwy dref fwyaf, sef y Bala a Dolgellau, mae cyfyngiadau amgylcheddol o berygl llifogydd a thopograffi serth yn rhwystro ehangu trefnus yr aneddiadau hyn. Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch cynhwysedd aneddiadau a'r cyfyngiadau amgylcheddol difrifol yn y canolfannau gwasanaeth ac aneddiadau gwasanaeth naill ai oherwydd perygl llifogydd, dynodiadau amgylcheddol neu dopograffi lleol, yn y Papur Cefndir Tai ac yn yr Astudiaeth Cynhwysedd Anheddiad. Felly bydd dosbarthiad gofodol tai a graddfa'r datblygiad newydd yn aros yn ddigyfnewid i raddau helaeth. Fodd bynnag, bydd yn ofynnol i dai newydd ddarparu ar gyfer cyfnod y cynllun sy'n ymestyn y tu hwnt i 2022, a darparu mwy o ddewis a hyblygrwydd safleoedd er mwyn sicrhau darpariaeth barhaus o dai newydd.

Gwarchod, Gwella a Rheoli'r Amgylchedd Naturiol

23. Ers mabwysiadu CDLl Eryri, mae'r Awdurdod wedi paratoi canllawiau cynllunio atodol ar Ardaloedd Cymeriad Tirwedd, a chanllawiau pellach, ac ar

hyn o bryd, mae sensitifrwydd a chapasiti'r dirwedd yn destun i ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r canllawiau ychwanegol wedi atgyfnerthu polisïau presennol ac wedi nodi'r tirweddau mwyaf sensitif ac agored i niwed. Bydd canfyddiadau'r Astudiaeth Sensitifrwydd Tirweddau a Chynhwysedd yn rhoi arweiniad ar sensitifrwydd tirweddau Parc Cenedlaethol Eryri i wahanol fathau o ddatblygiad, a'i derfynau cynhwysedd er mwyn llywio adolygiadau polisi. Fel gyda chanllawiau cynllunio eraill, bydd angen croesgyfeirio'r dogfennau hyn yng nghorff CDLl Eryri ac mewn rhai polisïau sy'n bodoli eisoes. Mae'r Awdurdod hefyd wedi ystyried gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â diogelu mwynau a bydd angen diwygio'r Ardaloedd Diogelu Mwynau ar y Map Cynigion i adlewyrchu adnoddau Categori 1 Arolwg Daearegol Prydain yn Eryri.

24. Fel y dangosir yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol, cafodd nifer fawr o Gynlluniau Trydan Dŵr ar raddfa fach eu caniatáu yn Eryri ers i Gynllun Datblygu Lleol Eryri gael ei fabwysiadu gyda'r rhan fwyaf o'r rhain yn gynlluniau arallgyfeirio amaethyddol sy'n creu incwm ychwanegol ar ffermydd Nid oes potensial am ddatblygiadau ffermydd gwynt mawr yn y Parc, daw tystiolaeth o Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd Ynys Môn, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri a ymgymerwyd gan Gillispies yn 2014. Dangosodd yr asesiad fod sensitifrwydd tirweddau'r Parc Cenedlaethol yn ymestyn o Cymedrol/Uchel i Uchel Iawn i ddatblygiadau ynni gwynt mwy na domestig eu maint. Felly ni fydd ardaloedd chwilio na dyraniadau tir ar gyfer datblygiadau ynni gwynt yn Adolygiad Cynllun Datblygu Lleol Eryri. Mae dogfen Llywodraeth Cymru "Cynllunio ar gyfer ynni adnewyddadwy a charbon isel- llawlyfr i gynllunwyr" yn ystyried nad oes potensial, ar gyfer pwrpasau'r asesiad, i ddatblygiadau ynni gwynt yn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Gan fod y Parciau Cenedlaethol o'r un statws, yn nhermau cynllunio, gellid dweud nad oes potensial i'r fath ddatblygiadau yn Eryri. Cynllunio. Mae'r Llawlyfr hefyd yn ystyried nad oes potensial i ffermydd solar yn yr AHNE ac ystyrir y bod hwn yn berthnasol i'r Parciau Cenedlaethol hefyd. Felly ni ystyrir bod angen unrhyw ddyraniadau gofodol ar gyfer y technolegau hyn wrth adolygu CDLl Eryri. Ystyrir mai parhau â pholisi seiliedig ar feini prawf ar ddatblygiadau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach, a barnu pob cais yn ôl ei deilyngdod, yw'r opsiwn gorau o hyd.

25. Cafwyd newid pellach yn ddiweddar gyda dynodiad y cyfan o Eryri fel Gwarchodfa Awyr Dywyll i gydnabod y llygredd golau cyfyngedig a geir yn yr ardaloedd mwy anghysbell y Parc Cenedlaethol. Er bod polisïau presennol yn delio â llygredd golau, bydd angen rhoi cyfeiriad at y statws Awyr Dywyll yn y Cynllun a'r ardaloedd "craidd" a nodwyd ar y map cynigion.

26. Mae'n fwriad adolygu'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol, sydd ym marn yr Awdurdod, yn bwysig i'w gwarchod yn benodol, ac os bydd unrhyw newidiadau fe'u hadlewyrchir ar y mapiau

27. Er mwyn llywio'r gwaith o adolygu CDLl Eryri bwriedir ymgymryd ag asesiad Mannau Agored yn unol â gofynion TAN 16. Bydd hyn yn helpu i lywio'r gofynion mannau agored o fewn ac o amgylch yr aneddiadau presennol i sicrhau bod y

Mannau Agored sy'n darparu swyddogaeth gymunedol bwysig ac amwynder lleol yn cael eu diogelu.

Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Ddiwylliannol a Hanesyddol

28. Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (2016) bellach wedi ei phasio, a'r Ddeddf a'i phwrpas yw cynnig amddiffyniad mwy effeithiol i adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig, gwella mecanweithiau presennol ar gyfer rheolaeth gynaliadwy o'r amgylchedd hanesyddol a chyflwyno mwy o dryloywder ac atebolrwydd i benderfyniadau a gymerwyd ar yr amgylchedd hanesyddol. Mae'r CDLl yn cynnwys polisi sy'n gwarchod pob agwedd ar yr amgylchedd hanesyddol, felly ystyrir nad oes angen unrhyw newidiadau sylweddol i CDLl Eryri yn sgil Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Bydd angen rhoi ystyriaeth i statws y Safle Treftadaeth y Byd ymgeisiol - 'Diwydiant Llechi Gogledd Cymru'. Efallai y bydd angen diogelu'r safleoedd sydd o fewn y Parc Cenedlaethol ar y rhestr betrus o enwebiadau Treftadaeth y Byd y dyfodol gydag UNESCO.

Hyrwyddo Cymunedau Iach a Chynaliadwy

29. Bydd angen i gyfnod o amser CDLl Eryri gael ei dreiglo ymlaen y tu hwnt i'r dyddiad gorffen presennol o 2022 er mwyn caniatáu o leiaf 10 mlynedd o fywyd gweithredol ar ôl mabwysiadu. Mae Cynllun Datblygu Lleol yn Cunlluniad 15 mlynedd a felly mi fydd y cyllun efo dyddiad cychwyn o 2016 ag yn ymestyn i 2031. . Felly mae angen rhoi ystyriaeth yn yr adolygiad i sicrhau cyflenwad digonol o safleoedd tai am gyfnod y cynllun datblygu lleol estynedig. Bydd hyn yn golygu galwad newydd am safleoedd tai ychwanegol.

30. Mae nifer cyffredinol y tai a gwblhawyd yn CDLl Eryri wedi aros yn gymharol gyson, a bu'r cyfartaledd ers 2007 yn 54 uned o gymharu â rhagolwg cyfradd cwblhau y cynllun o rhwng 51-55 uned y flwyddyn. Mae nifer y tai fforddiadwy a gwblhawyd hefyd wedi bod yn unol â'r gyfradd darged cwblhau o 26 uned, er bod y nifer hwn yn debygol o ostwng os na chanfyddir safleoedd cyhoeddus pellach. Dylid cydnabod nad yw cyflenwi rhai o'r targedau tai wedi bod yn hawdd ac mae wedi cynnwys cydweithio agos rhwng partneriaid yn cynnwys swyddogion galluogi tai gwledig, cymdeithasau tai, awdurdodau tai lleol, cynghorau cymuned, tirfeddianwyr, asiantau cynllunio a datblygwyr preifat. Mae'n hanfodol bod yr Awdurdod yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid ac yn ystyried mentrau lleol newydd posibl, megis ymddiriedolaethau tir cymunedol, i ddod â safleoedd newydd ymlaen yn y dyfodol.

31. Bydd y gofyniad tai cyffredinol dros gyfnod cynllun estynedig yn cael ei asesu'n fanwl, yn seiliedig ar amcanestyniadau aelwydydd 2013 i'r Parciau Cenedlaethol a chanfyddiadau'r Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol, ynghyd â materion allweddol eraill, fel yr hyn y mae'r cynllun yn ceisio ei gyflawni, ystyriaethau iaith Gymraeg a chyflenwadwyedd y cynllun (Papur Cefndir Tai wedi'i ddiweddaru). Bydd angen rhoi ystyriaeth i sut y gall y galw am dai gael ei fodloni trwy ddyrannu safleoedd newydd, newidiadau i ffiniau datblygu tai a chyfraniad hap-safleoedd. Darn pwysig arall o waith fydd diweddaru asesiad

hyfywedd tai yr Awdurdod, a allai ddylanwadu ar newidiadau posibl i'r polisïau tai a thestun cysylltiedig er mwyn sicrhau eu bod yn gallu darparu'r niferoedd o dai marchnad a thai fforddiadwy anghenion lleol sydd eu hangen. Hefyd bydd yr Awdurdod yn ystyried yr angen i adolygu ei bolisi tai fforddiadwy yng ngoleuni mentrau lleol newydd posibl er mwyn dod â safleoedd ymlaen. Bydd unrhyw dreigl ymlaen o gyfnod amser y Cynllun hefyd angen safleoedd newydd ar gyfer tai marchnad a thai fforddiadwy.

32. Gan fod y gyfradd gwblhau rhagolwg tai bresennol yn gynaliadwy ac yn gyflenwadwy a'i bod yn ystyried cynhwysedd yr ardal ac y rhagwelir y bydd nifer yr aelwydydd yn ardal Parc Cenedlaethol Eryri yn lleihau (yn ôl amcanestyniadau aelwydydd diweddaraf 2013), ynghyd â'r angen i geisio sicrhau bod y cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer datblygu yn y Parc yn bodloni anghenion lleol ac yn ystyried anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg, ystyrir y dylai'r gofyniad tai presennol aros ar lefelau tebyg.

33. Aseswyd y dosbarthiad twf eang un waith eto ar sail y dystiolaeth yn yr AMBau. Cyrhaeddwyd yn fras y targed o 28% yn y Canolfannau Gwasanaeth Lleol, 11% yn yr Aneddiadau Gwasanaeth, 45% yn yr Aneddiadau Eilaidd ac 11% y tu allan i ffiniau datblygu tai, ac mae angen dosbarthu cyfleoedd tai ledled ardal y cynllun er mwyn cwrdd â strategaeth gyffredinol y cynllun. Hyd yma, mae dosbarthiad datblygiadau tai newydd wedi cydymffurfio yn fras â'r targedau dosbarthu canrannol hyn, a rhagwelir mai dim ond effaith fach a geir ar ddosbarthiad safleoedd tai newydd a hap-safleoedd yn y goeden aneddiadau.

34. Mae cyfrifiad 2011 unwaith eto wedi datgelu gostyngiad cyson yn nifer y siaradwyr Cymraeg, a phroffil i'r dyfodol o boblogaeth sy'n heneiddio. Mae Deddf Cynllunio Cymru 2015 yn cyflwyno darpariaeth ddeddfwriaethol ar gyfer yr iaith Gymraeg yn y system gynllunio. Hefyd noda'r Ddeddf bod yr iaith Gymraeg yn ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Er y bydd angen diweddaru'r cyfeiriadau at y Ddeddf Gynllunio i roi mwy o ystyriaeth i'r effeithiau ar yr iaith Gymraeg yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, mae'r polisïau presennol wedi cael eu ffurfio i amddiffyn a gwella hynodrwydd y diwylliant lleol.

Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy

35. Mae gan y Parc Cenedlaethol ddyletswydd i 'feithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol yn y Parc Cenedlaethol'. Mewn sawl ffordd mae cylch gwaith y Parc Cenedlaethol wrth fynd ar drywydd lles economaidd a chymdeithasol cymunedau ochr yn ochr â rheolaeth amgylcheddol yn gysyniad sy'n cyd-fynd yn dda â'r ymagwedd at ddatblygu cynaliadwy. Mae'r amgylchedd yn sail i lawer o'r economi yn y Parc Cenedlaethol gyda nifer o sectorau a busnesau yn dibynnu ar yr amgylchedd.

36. Ystyrir yn aml fod diogelu'r amgylchedd a lles economaidd yn nodau sy'n gwrthdaro. Fodd bynnag, mae sylw cynyddol ar y berthynas gyflenwol rhwng cadwraeth a lles economaidd a'r gydnabyddiaeth bod ansawdd yr amgylchedd yn ffynhonnell o fantais gystadleuol drwy'r cyfleoedd mae'n ei

roi i dwristiaeth gynaliadwy, bwyd ac amaethyddiaeth, rheolaeth amgylcheddol ac ynni. Mae buddion economaidd y Parc Cenedlaethol ar gyfer y sectorau hyn hefyd yn ymestyn ymhell y tu hwnt i ffiniau'r Parc.

37. Ar gyfartaledd, mae busnesau yn y Parc Cenedlaethol (wedi'i fesur yn ôl nifer y gweithwyr) yn tueddu i fod yn llai na gweddill Cymru. Mae hyn yn adlewyrchu'r diffyg cymharol o weithfeydd gweithgynhyrchu mawr neu wasanaethau swyddfa yn ogystal â'r ffaith bod busnesau twristiaeth, manwerthu ac amaethyddol yn tueddu i fod yn fach. Mae tuedd hefyd tuag at lefel uwch o hunangyflogaeth sy'n adlewyrchu'r mathau o sectorau cyflogaeth yn y Parc Cenedlaethol.

38. Mae'r rhan fwyaf o gyfleoedd cyflogaeth newydd yn y Parc yn perthyn i'r diwydiant twristiaeth ac yn fwy diweddar i dwristiaeth antur awyr agored. Mae polisïau presennol y cynllun yn hyblyg iawn er mwyn caniatáu cyfleoedd newydd ar gyfer prosiectau arallgyfeirio ar ffermydd ac mae Polisi 19 yn bolisi galluogi sy'n hyblyg ar leoliad safleoedd cyflogaeth newydd, a all fod naill ai o fewn neu'n gyfagos at ffiniau aneddiadau tai. Fel rhan o'r broses o adolygu CDLl Eryri bydd angen i'r Awdurdod ail-ystyried y meini prawf ym mholisi datblygu 19 i sicrhau ei fod yn parhau i hyrwyddo a galluogi cyfleoedd cyflogaeth i sicrhau economi wledig gryf yn ardal y Parc Cenedlaethol. Fel rhan o'r ystyriaeth yma mi fydd yr Awdurdod yn ystyried policy sydd yn diogelu safleoedd cyflogaeth presennol.

39. Ers mabwysiadu CDLl Eryri mae Ardal Fenter Eryri wedi'i dynodi. Mae'r ardal yn cynnwys dau safle – un yng Ngorsaf Bŵer Trawsfynydd a'r llall ym Maes Awyr Llanbedr sy'n ceisio creu cyfleoedd cyflogaeth pellach yn yr ardal. Mae Ardal Fenter Eryri yn cynnig cyfle am ynni gwyrdd cynaliadwy a diogel. Mae potensial yr ardal yn seiliedig ar y manteision i fusnesau technoleg o gyflenwad pŵer adnewyddadwy lleol cadarn yn seiliedig ar adnoddau naturiol yr ardal. Y nod ar gyfer safle Trawsfynydd yw dod yn ganolbwynt ar gyfer mentrau technoleg carbon isel arloesol a defnyddiau ymchwil a datblygu cysylltiedig sy'n adeiladu ar sgiliau gweithlu Trawsfynydd. Y gobaith yw y bydd safle Llanbedr hefyd yn caniatáu ar gyfer datblygu sgiliau peirianyddol allweddol.

40. .Mae'r Awdurdod wedi gweithio mewn cydweithrediad agos â'r Bwrdd Menter a Llywodraeth Cymru i nodi'r cyfleoedd datblygu ar gyfer Ardal Fenter Eryri. Nid yw'r safleoedd wedi'u dyrannu ar hyn o bryd yn CDLl Eryri, felly bydd angen eu dangos fel dyraniadau yn y cynllun diwygiedig. Mae'r ddau safle yn cwmpasu ardal eang ond dim ond rhan ohoni'n unig fydd yn addas ar gyfer ei datblygu.

41. O ran safle Trawsfynydd, mae'r nifer o swyddi a grëwyd wrth ddadgomisiynu Safle Orsaf Niwclear Trawsfynydd yn cyfateb yn fras i'r nifer a gyflogwyd pan oedd y safle'n weithredol (tua 500 o bobl). Bydd gwaith dadgomisiynu pellach i leihau uchder adeiladau'r adweithyddion yn cynnal tua 400 o swyddi hyd nes y daw'r gwaith i ben yn 2021, yn ôl y disgwyl. Mae'n annhebygol y bydd nifer y swyddi newydd a grëwyd ar safle Ardal Fenter Trawsfynydd yn cymryd lle'r 400 presennol. Yn sgil hynny, rhagwelir na fydd effaith sylweddol ar strategaeth y Cynllun na goblygiadau pellach ar lefelau tai a mewnfudo..

42. Yn achos safle Maes Awyr Llanbedr, cynhyrchwyd Meistr-gynllun Datblygu sy'n nodi meysydd datblygiad newydd. Mae gweithredwyr presennol y safle yn rhagweld y potensial ar gyfer datblygu profion systemau awyrennau di-griw, ac maent wedi buddsoddi yn y cyfleusterau ar y safle i ddarparu ar gyfer yr ehangu hwn. Bydd hyn yn caniatáu twf cyflogaeth cymedrol ar y safle. Bydd llawer o'r swyddi technegol sydd eu hangen ar gyfer y profion yn rhai dros dro ac yn gyfyngedig i gyfnodau profi. Mae rhywfaint o botensial ar gyfer twf cyflogaeth ategol yn seiliedig ar y diwydiant awyrofod, a byddai hyn angen buddsoddiad sylweddol, mewn cystadleuaeth â safleoedd tebyg eraill yn y DU. Ni chredir bod y raddfa bosibl o gyfleoedd cyflogaeth yn amharu ar y strategaeth Cynllun presennol nac yn arwain at gynnydd mewn mewnfudo a'r galw am dai. Fel sy'n wir yn achos safle Trawsfynydd, bydd y swyddi a grëir yn cymryd lle'r rhai a gollwyd yn raddol o'r gweithgareddau blaenorol ar y safle, ac nid ydynt yn debygol o effeithio ar raddfa a lleoliad twf tai yn y dyfodol, ac felly'n annhebygol o gael effaith ar y Strategaeth bresennol.

43. Dylai unrhyw ddatblygiadau newydd o fewn yr Ardal Fenter fanteisio ar y pwynt gwerthu unigryw o fod oddi mewn i leoliad deniadol y Parc Cenedlaethol. Dylai prosiectau newydd fod yn arloesol a darparu atebion dylunio ategol addas ar gyfer lleoliad y Parc Cenedlaethol. Mae cyfle i greu cyfleoedd cyflogaeth medrus newydd i bobl ifanc yn yr ardal. Bydd angen polisi cadarnhaol a galluogi newydd i lywio datblygiadau newydd o fewn yr Ardal Fenter, yn seiliedig ar gytuno ar friffiau datblygu mwy penodol gyda datblygwyr a gweithredwyr.

44. Mae gofynion llety ymwelwyr wedi newid ers mabwysiadu CDLl Eryri gyda'r cynnydd mewn llety gwyliau o 'fath amgen'. Dros y blynyddoedd diwethaf bu cynnydd yn nifer yr ymholiadau yn ymwneud â'r mathau newydd hyn o lety megis pebyll crwyn a phodiau, a bydd angen asesu'r polisïau presennol sy'n ymwneud â charafannau statig a symudol i weld a ydynt yn ddigon hyblyg i ystyried mathau newydd o lety. O fewn y cyd-destun hwn, bydd angen eglurhad o bolisïau twristiaeth cysylltiedig eraill.

45. Bu hefyd nifer sylweddol o geisiadau i drosi adeiladau gwledig yn llety gwyliau hunanarlwyo ers mabwysiadu CDLl Eryri. Diben y polisi hwn yw darparu manteision economaidd i'r economi wledig leol, (gan fod y llety gwyliau tymor byr am gael ei redeg fel busnes) ac nid i ddarparu ail gartrefi

yn ardal y Parc Cenedlaethol. Mae gan yr adeiladau gwledig hyn rôl bwysig o ran darparu tai anghenion lleol fforddiadwy. Bwriedir ailedrych ar eiriad y polisi hwn er mwyn sicrhau y gwireddir gwir fwriad y polisi.

46. Ar hyn o bryd gall prosiectau newydd neu estynedig sy'n gysylltiedig â thwristiaeth ac sy'n dibynnu ar gyfleusterau presennol neu ffactorau lleoliad unigryw penodol gael eu lleoli yng nghefn gwlad pan fodlonir holl feini prawf PD 21. Ailedrychir ar PD 21 a PSI er mwyn sicrhau bod mwy o eglurder o ran llety gwyliau newydd ac atyniadau newydd i dwristiaid.

47. Mae tystiolaeth o arolygon manwerthu wedi dangos bod cyfraddau lleoedd gwag yn cynyddu ac efallai fod defnydd amgen yn ddymunol ar gyfer eiddo gwag yn y Canolfannau Gwasanaethau ac Aneddiadau Gwasanaeth. Felly, bydd angen dull polisi mwy hyblyg.

Hyrwyddo Hygyrchedd a Chynhwysiad

48. Mae hygyrchedd y ffyrdd wedi gwella ar hyd coridor yr A470 i'r de o'r Parc Cenedlaethol ac mae gwelliannau pellach wedi'u cynllunio, gyda phont Dyfi newydd. Cafwyd gwelliannau mwy lleol gydag ailadeiladu Pont Briwet dros Aber Dwyryd. Bydd y ffordd osgoi arfaethedig newydd yn Llanbedr yn gwella mynediad i safle'r Ardal Fenter yn Llanbedr a chyfathrebu ar hyd yr A496, sydd yn llwybr twristiaeth prysur.

Ystyried Cynlluniau ar y Cyd

49. Mae'r Awdurdod wedi ystyried y cyfle i weithio gydag awdurdodau cyfagos i baratoi cynllun diwygiedig ar y cyd neu gynllun amnewidiol. Mae Cyngor Gwynedd eto i fabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol ac mae'n annhebygol o wneud hynny tan 2017. Felly nid yw'r amseriad yn gydnaws â diwygio CDLl Eryri. Y partner posibl arall fyddai Cyngor Conwy sydd â cynllun mabwysiedig, ac a fydd yn cychwyn ar adolygiad yn 2017. Mae CDLl Conwy yn debygol o fod yn gynllun amnewidiol ac mae ardaloedd trefol Conwy yn hollol wahanol o ran cymeriad i'r Parc Cenedlaethol. Felly ni ystyrir y byddai paratoi cynllun ar y cyd yn fuddiol o ran amseriad effeithlon, nac yn berthnasol i bwrpasau'r Parc Cenedlaethol. Nid yw hyn yn atal gweithio ar y cyd, lle bo cyfle, ar gasglu tystiolaeth a seilio polisïau ar y wybodaeth hon.

Newidiadau Angenrheidiol mewn Cynllun Diwygiedig

50. Ymhellach at y materion a drafodwyd uchod, ystyrir bod angen y diwygiadau allweddol canlynol i'r cynllun.

- Treiglo ymlaen dyddiad gorffen CDLl Eryri i 2031 efo dyddiad cychwyn 2016
- Penderfynu ar ofynion y cynllun tai newydd a sut y gellir diwallu'r rhain trwy ddyrannu safleoedd newydd, addasu ffiniau datblygu tai a chyfraniad hap-safleoedd. Mae hyn yn debygol o gael effaith fach ar ddosbarthiad y datblygiadau tai yn y goeden aneddiadau.
- Diwygio'r polisïau tai ynghyd â'r testun cysylltiedig fel bo'r angen.
- Croesgyfeirio polisïau a thestun presennol â'r Canllawiau Cynllunio Atodol a baratowyd ers mabwysiadu.
- Ystyried goblygiadau unrhyw bolisïau a chynigion gydag elfen ofodol a diweddaru'r map cynigion yn unol â hynny.
- Dangos dynodiad Ardal Fenter Eryri ar y Map Cynigion a chyflwyno polisi cadarnhaol a galluogi newydd i reoli datblygiadau newydd o fewn yr Ardal Fenter.
- Adolygu polisïau sy'n ymdrin â mathau o lety twristiaeth a pholisïau cyd-destunol cysylltiedig.
- Diwygio'r polisi manwerthu i roi mwy o hyblygrwydd o ran defnyddiau amgen.
- Cydnabod dynodiad y Warchodfa Awyr Dywyll.
- Mân newidiadau diweddaru neu fân newidiadau canlyniadol eraill i bolisïau a'r testun ategol.

Ailystyried yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

51. Fel rhan o'r adolygiad o CDLl Eryri, ailystyriwyd yr Arfarniad Cynaliadwyedd gwreiddiol (AoG). Aseswyd canlyniadau'r cynigion datblygu a ganiatawyd ers mabwysiadu a gwybodaeth sylfaen dystiolaeth arall yn erbyn fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn yr Adroddiadau Monitro Blynyddol er mwyn sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol yn cyflawni amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Daeth yr adroddiadau monitro blynyddol i'r casgliad bod y CDLl yn cyflenwi o ran datblygu cynaliadwy yn unol ag amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae'r Awdurdod hefyd wedi adolygu fframwaith cwmpasu ac asesu Arfarniad o Gynaliadwyedd y CDLl Eryri presennol, a oedd yn cynnwys adnewyddu Cynlluniau, Polisïau a Rhaglenni a gwybodaeth waelodlin. Ystyrir bod amcanion yr AoG i gyd yn dal yn berthnasol i'r CDLl wrth iddo symud ymlaen ac ni ystyriwyd bod angen unrhyw newidiadau. Mae'r fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd a ddefnyddiwyd gydol yr amser fel offeryn ar gyfer asesu cynaliadwyedd y CDLl yn dal i gael ei ystyried yn briodol ar gyfer y dyfodol. Ni chredir y bydd y newidiadau arfaethedig yn cael unrhyw effaith niweidiol sylfaenol ar yr AoG gwreiddiol, a bod y newidiadau gwirioneddol a gynigir yn gynaliadwy - maent yn gymharol fach ac yn cael eu hategu gan y strategaeth, gweledigaeth ac amcanion sy'n bodoli eisoes. Unwaith y bydd y manylion y diwygiadau yn cael eu gwneud, ymgymerir ag AoG / AAS ac ARhC o'r Cynllun Adnau.

Goblygiadau'r diwygiadau ar weddill y Cynllun

52. Mae'r rhan fwyaf o'r newidiadau a ragwelir yn rhai annibynnol yn ymwneud â pholisïau newydd penodol neu fireinio polisïau presennol. Nid yw strategaeth sylfaenol y Cynllun yn newid, a bydd gofyn i unrhyw safle tai newydd gwrdd â blynyddoedd ychwanegol y cyfnod cynllun estynedig. O ganlyniad, nid yw'r effeithiau canlyniadol ar rannau eraill o'r Cynllun yn cael eu hystyried yn arwyddocaol. Wrth i'r broses adolygu fynd yn ei blaen, mae'n bosibl y bydd angen rhywfaint o dystiolaeth ychwanegol i gefnogi adolygiad o'r CDLl Eryri.

53. Wrth symud ymlaen mi fydd yr Awdurdod yn gweithio gyda Cynghorau Cymuned sydd â diddordeb , i edrych ar y posibilrwydd o ddrafftio'r 'cynlluniau lle', lle yn briodol.

Casgliad a Math o Adolygiad

54. Oherwydd y consensws bod y strategaeth bresennol yn parhau'n berthnasol, y newidiadau bach iawn a gynigir a'r goblygiadau i weddill y cynllun, ystyrir mai ffurf adolygu fer fyddai'r dull mwyaf priodol o symud ymlaen a chwblhau'r adolygiad mewn modd amserol a chost effeithlon.

Atodiad 1: Rhanddeiliaid allweddol fu'n ymwneud â'r papur trafod

Cyrff Ymgynghori Penodol

Llywodraeth Cymru

Yr Arolygiaeth Gynllunio

Cyfoeth Naturiol Cymru

Network Rail Infrastructure Limited

Ysgrifennydd Gwladol dros Gludiant

ACLl cyfagos

Cyngor Gwynedd

Cyngor Conwy

Cyngor Ceredigion

Cyngor Powys

Cyngor Sir Ddinbych

Cynghorau Cymuned a Thref

Unrhyw berson y mae'r cod cyfathrebu electronig yn berthnasol iddynt

CTIL (ar ran Vodafone a telephonica)

MBNL (EE A Three)

BT

Unrhyw berson sy'n berchen ar neu'n rheoli offer electronig

Arqiva

Bwrdd Iechyd Lleol

Betsi Cadwalader

Trydan

SP energy Networks & Wales and West Utilities

Grid Cenedlaethol

Nwy

Grid Cenedlaethol

Ymgymerwr Carthffosiaeth

Dŵr Cymru / Welsh Water

United utilities

Ymgymerwr Dŵr Cymru / Welsh Water

Severn Trent Water

Adrannau Llywodraeth y DU

Adran dros Newid Hinsawdd ac Ynni

Y Weinyddiaeth Amddiffyn

Cyrff Ymgynghori Cyffredinol

Cyrff gwirfoddol, rhai neu bob un lle mae eu gweithgareddau o fudd i unrhyw ran o ardal yr Awdurdod

Cymdeithas Eryri

YDCW

Cymdeithas Edward Llwyd

Grwpiau cydraddoldeb gan gynnwys grwpiau hiliaeth, ethnig neu genedlaethol

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru

Stonewall

Amrywiol Grwpiau Crefyddol

Canolfan Islamaidd Bangor

Cenhadaeth Orthodocs Cymru

Cytun

Pobl Anabl

Grŵp Mynediad Meirionnydd

Grwp Gweithredu Arfon

Grŵp Mynediad Dwyfor

Sirol Gwirfoddol Conwy

Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru

Cymdeithas Gogledd Cymru i'r Deillion

Anabledd Cymru

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Pobl Hŷn

Age Cymru

Age Concern Gwynedd a Môn

Age Concern Canolbarth Gogledd Cymru

Busnes yn y parc

Economi ac Adfywio Gwynedd

Gwasanaeth Adfywio Conwy

Ffederasiwn Busnesau Bach

Menter Môn

Clwb Busnes Gogledd Cymru

Diddordebau Diwylliant Cymru

Comisiwn yr Iaith Gymraeg

Cymdeithas yr Iaith

Menter Iaith Conwy

Hunaniaeth

Cymuned

Urdd Gobaith Cymru

Dyfodol i'r Iaith

Cylch yr Iaith

Grwpiau gwirfoddol yn yr ardal

Mantell Gwynedd

CGGC

CGG Conwy

Shelter Cymru

Ardal Cymunedau'n Gyntaf Talsarn

Aelodau Seneddol lleol ac Aelodau Cynulliad Cymru

Eraill

Ymddiriedolaeth Genedlaethol

NFU

FUW

Croeso Cymru

Cyngor dros y Parciau Cenedlaethol / Council for National Parks

Ffederasiwn Adeiladu Cartrefi

Cyngor Chwaraeon Cymru

Unllais Cymru

Atodiad 2: Sylwadau rhanddeiliaid allweddol ar y papur trafod ar adolygiad CDLl Eryri

Cyfeirnod	Enw	Sefydliad (os yn berthnasol)	Crynodeb o'r sylwadau	Ymateb Swyddog
1/1	John Harold	Cymdeithas Eryri	Mae'r ddogfen yn cymryd agwedd synhwyrol ac rydym yn cytuno nad oes tystiolaeth bod y cynllun yn ddiffygiol neu angen newid sylfaenol. Felly, rydym hefyd yn cytuno nad oes ond angen cyfyngedig am newidiadau i'r cynllun. Rydym yn cytuno â phob un o'r tri chwestiwn ymgynghori yn Atodiad 1.	Nodwyd
1/2	John Harold	Cymdeithas Eryri	Bydd gan Gymdeithas Eryri ddiddordeb arbennig mewn gweld sut y bydd y cynllun diwygiedig yn mynd i'r afael â pholisïau Ardal Fenter, ynghyd â pholisïau sy'n ymdrin â mathau o lety twristiaeth.	Nodwyd
1/3	John Harold	Cymdeithas Eryri	Mae Paragraff 6, y pumed pwynt bwled yn y fersiwn Saesneg yn cloi gyda 'It is <u>not</u> considered that a higher rate of development would <u>not</u> be desirable in the National Park and would be difficult to practically deliver.' A yw un o'r 'nots' a amlygir yn gamgymeriad?	Ydi. Dileu'r 'not' cyntaf yn y frawddeg.
1/4	John Harold	Cymdeithas Eryri	Paragraff 8. Rydym yn cytuno bod canlyniadau'r broses hon ac unrhyw ganlyniadau yn sgil hynny yn anrhagweladwy.	Nodwyd a chytuno.
1/5	John Harold	Cymdeithas Eryri	Paragraff 17. Gall y cyfeiriad at 'grynodiad o ddatblygiadau newydd mewn ambell le' fod yn arwyddocaol wrth ddatblygu polisïau o amgylch Ardaloedd Menter.	Nodwyd. Rhagwelir y bydd y swyddi a grëwyd yn gysylltiedig â'r dynodiad Ardal Fenter yn adfer y rhai a gollwyd yn raddol o'r gweithgareddau blaenorol ar y safleoedd ac mae'n annhebygol o gael effaith sylweddol ar raddfa a lleoliad twf tai yn y dyfodol ac felly mae'n annhebygol o gael effaith ar y Strategaeth bresennol. Bydd effaith bosibl dynodiad Ardal Fenter Eryri yn parhau i gael ei

				hystyried drwy gydol y broses o adolygu CDLl Eryri ac wrth ddatblygu polisi yn ymwneud ag Ardal Fenter Eryri.
1/6	John Harold	Cymdeithas Eryri	Paragraff 18. Canllaw sensitifrwydd a chapasiti'r dirwedd - cyfeiriwch at ein sylwadau ar eich ymgynghoriad ar wahân ar y mater hwn.	Nodwyd. Rhoddir ystyriaeth i'r sylwadau blaenorol a wnaed ar y canllaw sensitifrwydd a chapasiti'r dirwedd
2/1	Mark Harris	Ffederasiwn Adeiladwyr Tai	A ydych chi'n cytuno â'r materion a gafodd eu hystyried fel rhan o'r adolygiad? Ydym, fodd bynnag byddem yn awgrymu bod angen rhoi ystyriaeth bellach i'r dynodiad o Ardal Fenter Eryri a'r effaith ar yr economi ehangach o ran y twf economaidd y gallai hyn ei greu, a gallai hyn yn ei dro gael effaith ar yr angen am, a lleoliad tai newydd i wasanaethu'r twf posibl hwn.	Nodwyd. Rhagwelir y bydd y swyddi a grëwyd yn gysylltiedig â'r dynodiad Ardal Fenter yn adfer y rhai a gollwyd yn raddol o'r gweithgareddau blaenorol ar y safleoedd ac mae'n annhebygol o gael effaith sylweddol ar raddfa a lleoliad twf tai yn y dyfodol ac felly mae'n annhebygol o gael effaith ar y Strategaeth bresennol. Fodd bynnag, bydd effaith bosibl dynodiad Ardal Fenter Eryri yn parhau i gael ei hystyried drwy gydol y broses o adolygu CDLl Eryri.
2/2	Mark Harris	Ffederasiwn Adeiladwyr Tai	Gyda golwg ar y cyflenwad tir 5 mlynedd, nodwyd ers 2013 bod hwn wedi bod yn disgyn 1.2 bob blwyddyn (2013 -9.5, 2014 -8.3, 2015 -7,) os yw'r duedd hon yn parhau o bosibl ni fydd cyflenwad tir 5 mlynedd yn 2017/2018 (2016 -5.8, 2017 -4.6). Mae angen ystyried a deall hyn	Mae gan CDLl Eryri gyflenwad mwy na digonol o dir ar gyfer tai a bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro'r cyflenwad tir ar gyfer tai yn flynyddol. Bydd angen tai newydd i ddarparu ar gyfer oes cynllun sy'n ymestyn y tu hwnt i 2022 ac er mwyn darparu mwy o ddewis a hyblygrwydd o ran safleoedd i sicrhau darpariaeth barhaus o dai newydd.
2/3	Mark Harris	Ffederasiwn Adeiladwyr Tai	Byddem hefyd yn awgrymu adolygiad o'r prif bolisïau tai i sicrhau eu bod yn helpu i ddod â datblygiadau ymlaen a ddim yn cyfyngu ar adeiladwyr llai yn benodol, gan mai'r rhain rydych yn dibynnu arnynt i ddarparu strategaeth dai'r cynllun. Mae'r mater hwn yn berthnasol i'r ddarpariaeth o dai marchnad a fforddiadwy.	Nodwyd a chytuno. Bydd y prif bolisïau tai yn cael eu hystyried ymhellach ac os oes angen yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn cynorthwyo â chyflawni nifer y tai marchnad ac angen lleol fforddiadwy sy'n angenrheidiol a ddim yn cyfyngu ar adeiladwyr tai llai.

2/4	Mark Harris	Ffederasiwn Adeiladwyr Tai	A ydych chi'n cytuno â'r Awdurdod ynglŷn â'r hyn y mae angen ei newid a pham? Ydym, ond byddem yn awgrymu ychwanegu: Adolygiad o'r dyraniadau presennol sydd heb eu cyflawni eto i sicrhau eu bod yn dal yn hyfyw neu â thirfeddianwyr parod sy'n bwriadu datblygu'r safleoedd. Dylid ystyried y safleoedd a gafodd eu cario ymlaen o'r cynlluniau blaenorol lle na fu proses ymhellach ar gyfer dad-ddyraniad / adnewyddiad.	Nodwyd a chytuno. Bydd yr Awdurdod yn adolygu'r dyraniadau presennol sydd heb eu cyflawni eto i sicrhau eu bod yn dal yn hyfyw neu â thirfeddianwyr parod sy'n bwriadu datblygu'r safleoedd.
2/5	Mark Harris	Ffederasiwn Adeiladwyr Tai	A ydych chi'n cytuno â'r casgliad mai proses adolygu ar ffurf gryno yw'r dull mwyaf priodol o symud ymlaen? Yn amodol ar ystyried fy atebion i gwestiynau 1 a 2 mae lefel y newid i'r cynllun a gynigir / rhagwelir ar hyn o bryd fel petai'n awgrymu y gallai ffurf gryno fod yn briodol, er nodwyd mai penderfyniad i Lywodraeth Cymru yw hwn.	Nodwyd
3/1	Richard Roberts	Cartrefi Cymunedol Gwynedd	Ydi, mae CCG yn cytuno mewn egwyddor â'r materion. Fodd bynnag, o ran y strategaeth datblygu gofodol prinder tai fforddiadwy i'w rhentu neu brynu yw un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu llawer o gymunedau yn Eryri ac mae hygyrchedd a fforddiadwyedd tai yn ffactor hanfodol o ran sicrhau cynaliadwyedd hirdymor ein hardaloedd gwledig. Mae CCG yn credu ei fod yn hanfodol i ddyfodol y Parc Cenedlaethol sicrhau poblogaeth gytbwys nad yw'n gyfyngedig i ddarparu tai fforddiadwy yn unig.	Nodwyd. Bydd angen i'r adolygiad o CDLl Eryri ystyried adolygu'r prif bolisïau tai i sicrhau eu bod yn cynorthwyo â chyflawni nifer y tai marchnad ac angen lleol fforddiadwy sy'n angenrheidiol.

3/2	Richard Roberts	Cartrefi Cymunedol Gwynedd	Ydi, mae CCG yn cytuno mewn egwyddor â'r newidiadau. Fodd bynnag, oherwydd y nifer o gyfleoedd sydd gan CCG ar gyfer datblygu a gwaredu yn y Parc Cenedlaethol rydym yn credu y gallwn helpu'r APC i gwrdd â'i dargedau tai fforddiadwy. Mae ein trafodaethau cychwynnol â'ch swyddogion cynllunio yn awgrymu os gellir darparu tystiolaeth briodol a chadarn ar gyfer safleoedd newydd, yna bydd y rhain yn cael ystyriaeth briodol fel rhan o'r adolygiad o CDLlE. Mae gan CCG nifer o safleoedd o fewn yr ardaloedd anheddiad allweddol sy'n addas ar gyfer datblygiad preifat a / neu waredu a lle byddai'r elw o warediadau yn helpu i ariannu'r galw am dai cymdeithasol yn y cymunedau hynny, e.e. ein safleoedd yn Aberdyfi a Dyffryn Ardudwy. Bydd newidiadau i bolisïau CDLlE yn hanfodol i alluogi'r dull arloesol hwn. Gallai polisïau CDLlE hefyd gael eu haddasu i gefnogi safleoedd lles cynllunio ar gyrion ardaloedd datblygu drwy reolaeth a bioamrywiaeth well, e.e. ein safle yn y Wenallt, Dolgellau.	Nodwyd. Bydd angen safleoedd tai newydd i ddarparu ar gyfer oes cynllun sy'n ymestyn y tu hwnt i 2022 er mwyn darparu mwy o ddewis a hyblygrwydd o ran safleoedd i sicrhau darpariaeth barhaus o dai newydd. Bydd cyfle i gyflwyno safleoedd tai arfaethedig i'w hystyried fel rhan o'r broses galw am safleoedd. Bydd angen i'r adolygiad o CDLl Eryri hefyd ystyried adolygu'r prif bolisïau tai i sicrhau eu bod yn helpu i gyflawni nifer y tai marchnad a fforddiadwy anghenion lleol sy'n angenrheidiol.
3/3	Richard Roberts	Cartrefi Cymunedol Gwynedd	Ydi, mae CCG yn cytuno mewn egwyddor â'r broses adolygu.	Nodwyd
4/1	Dewi Griffiths	Dwr Cymru	Cytuno gyda materion sydd wedi cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad. Mae Dŵr Cymru yn nodi y bydd angen nodi tir datblygu ychwanegol yn y broses adolygu ac maent yn croesawu'r cyfle i roi sylwadau ar y rhain maes o law. Rydym hefyd yn croesawu'r bwriad i lunio polisi newydd i reoleiddio datblygiad o fewn Parthau Menter Eryri.	Nodwyd. Bydd yr Awdurdod yn cynnwys Dŵr Cymru wrth ystyried safleoedd posibl yn dilyn y broses galw am safleoedd.
4/2	Dewi Griffiths	Dwr Cymru	Cytuno â'r hyn sydd angen ei newid a pham	Nodwyd

4/3	Dewi Griffiths	Dwr Cymru	Cytuno gyda'r casgliad mai'r broses ar ffurf fer o adolygu yw'r dull mwyaf priodol o symud ymlaen	Nodwyd
5/1	Gruffydd Price	Asiant Cynllunio	Rwyf wedi bod yn delio gyda darpar ymgeiswyr sydd eisiau codi ty unigol iddynt eu hunain. Rhain yn cynnwys pobl ifanc lleol sydd wedi cael cynnig tir yn rhad gan eu rhieni ond yn gorfod ariannu'r prosiect adeiladu trwy godi morgais.Roeddynt yn methu symud ymlaen oherwydd y polisi tai fforddiadwy. Methu cael morgais yw'r maen tramgwydd pennaf.	Mae'r Awdurdod yn ymwybodol nad yw benthycwyr morgeisi yn fodlon benthyg arian ar gynlluniau hunan adeiladu gyda Cytundeb 106. Mae'r broblem yma yn broblem Genedlaethol a nid yw yn unigryw i Eryri. Mae'r Awdurdod wedi llythyru Principallity yn ddiweddar i amlygu ein pryderon ac i ofyn iddynt ail-ystyried hyn. Mae Principality wedi cadarnhau y byddant yn ail gyflwyno cynnyrch morgais tai fforddiadwygyda cytundeb 106 ond yn anffodus ddim ar dai hunan adeiladu. Mae'r sefyllfa yn achosi pryder i'r Awdurdod gan ei fod yn ei gwneud yn anodd i iawn i unigolion arianu eu prosiect adeiladu. Rydym yn ymwybodol bod rhai o'r ceisiadau yma wedi bod ar safle eithredig lle mae yn ofynol ym mholisi cenedlaethol i'r tai fod yn dai fforddiadwy ac felly nid yw'n bosib i'r Awdurdod negodi ar hyn.

5/2	Gruffydd Price	Asiant Cynllunio	Mae cymlethdodau'r ffurflen "Tai Teg" hefyd yn achosi problemau heblaw am y costau o gael dau brisiad marchnad a thalu chyfraniad at gostau'r Awdurdod. Rhaid gofyn os mai tai fforddiadwy yw'r nod. Mae'n ymddangos imi nad yw'r ffurflen Tai Teg yn addas at ddibenion ymgeiswyr cynllunio fel rhain ac yn mynnu gormod o lawer o fanylion personol sydd ddim yn briodol i faterion cynllunio o gwbl.	Mae'n bwysig bod unigolion yn cael eu hasesu i sicrhau eu bod yn cwrdd ar gofynion 'angen' a 'lleol'. Mae'r ffurflen tai teg yn fodd annibynol, teg a chyson o wneud yr asesiad yma. Mae'r cwestiynau yn y ffurflen angen bod yn bersonol er mwyn medru asesu anghenion gwahanol unigolion. Yn anffodus mae costau ychwanegol i gael prisiad marchnad agored ond mae'r wybodaeth yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y ty yn parhau yn fforddiadwy yn y dyfodol.
5/3	Gruffydd Price	Asiant Cynllunio	Mae ardaloedd gwledig Cymru mewn sefyllfa argyfyngys parthed colled o'n bobl ifanc yn enwedig yr rhai hynny sy'n ymgeisio i wella eu sefyllfa trwy godi ty newydd. Ni allwn fforddio eu colli a rhaid imi ofyn os oes modd diwygio'r polisi hwn fel nad yw'n briodol i dai unigol. Deallaf nad oes gwrthwynebiad gan y cwmniau morgeisi i amodau yn ymwneud ac angen lleol ac mai'r amod fforddiadwy yw'r broblem.	Mae'r Awdurdod yn ymwybodol o bwysigrwydd ceisio cadw pobol ifanc yn ein hardaloedd gweldig. Mae'r broblem gyda morgeisi hunan adeiladu yn broblem Genedlaethol a nid yw yn unigryw i Eryri. Bydd yr Awdurdod yn parhau i lobio i geisio dylanwadu ar fenthycwyr ond mae hefyd angen lobio ar lefel genedlaethol. Rydym yn ymwybodol bod rhai o'r ceisiadau yma wedi bod ar safle eithredig lle mae yn ofynol ym mholisi cenedlaethol Cymru i'r tai fod yn dai fforddiadwy ac felly nid yw'n bosib i'r Awdurdod negodi ar hyn. Fel rhan o adolygu'r Cynllun bydd yr Awdurdod yn edrych ar hyfywedd datblygiadau tai fforddiadwy ac yn gwneud newidiadau i bolisiau a'r Canllaw Cynllunio atodol i adlewyrchu rhain.
6/1	Arwel Pearce	Cyngor Cymuned	Cytuno gyda'r materion a ystyriwyd fel rhan o'r	Nodwyd

		Bryncrug	adolygiad	
6/2	Arwel Pearce	Cyngor Cymuned Bryncrug	Cytuno gyda'r Awdurdod ar y diwygiadau sydd eu hangen a pham	Nodwyd
6/3	Arwel Pearce	Cyngor Cymuned Bryncrug	Cytuno gyda'r casgliad mai'r weithdrefn ddiwygio ffurf fer ydi'r dull mwyaf addas o symud ymlaen	Nodwyd
6/4	Arwel Pearce	Cyngor Cymuned Bryncrug	Mae'n drueni fod adolygu CDLlE ddim yn cyd-redeg a Chynllun Datblygu Lleol Cyngor Gwynedd	Nodwyd. Mae'r Awdurdod wedi ystyried y cyfle i weithio ag awdurdodau cyfagos er mwyn paratoi cynllun diwygiedig neu gynllun disodli ar y cyd. Mae Cyngor Gwynedd eto i fabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol, ac yn annhebyg o wneud hynny hyd 2017. Nid yw'r amseru, felly, yn gyson ag adolygu CDLlE.
7/1	Caerwyn Roberts	Cyngor Cymuned Betws y Coed	Mae'r Cyngor Cymuned yn gytun ar holl faterion a ystyriwyd fel rhan o'r adolygiad.	Nodwyd
8/1	Bedwyr Gwilym	Cyngor Tref Tywyn	Mae Cyngor Tref Tywyn wedi ystyried y papur trafod, ynghyd a'r materion a ystyriwyd ac yn derbyn y wybodaeth gan nad oes fawr o newidiadau sy'n effeithio ar Dywyn. Nodwyd bod nifer o'r materion o bwys i'r cymunedau o fewn y Parc Cenedlaethol, megis hyrwyddo cymunedau iach, gwella'r amgylchedd ddiwylliannol a hanesyddol a'r datblygiad ym maes awyr Llanbedr.	Nodwyd

9/1	Gethin Prys Davies	Cyngor Cymuned Capel Curig	Yn gyffredinol rydym fel Cyngor Cymuned yn cytuno gyda'r materion sydd yn cael eu ystyried fel rhan o'r adolygiad, ac yn gefnogol o'r broses. Wedi dweud hyn, rydym yn teimlo bod ymestyn dyddiad diwedd oes y CDLlE hyd at 2031 yn annoeth, os nad oes modd ei ddiwigio yn sylweddol yn ystod y cyfnod yma. Mae'r ddogfen yn cydnabod mai cyfyngedig yw'r cyfleoedd am gyflogaeth oddi fewn y Parc, ac mae'n sefyllfa drist mewn gwirionedd mai ond canran fechan o drigolion y Parc sydd yn gweithio oddi fewn i'w ffiniau. Byddai'r Cyngor yn gefnogol iawn i unrhyw newidiadau yn y CDLlE a fyddai yn gwella rhagolwg pobol ifanc o gael swyddi parhaol o safon yn eu ardaloedd lleol.	Bydd rhaid i gyfnod y CDLlE gael ei ymestyn tu hwnt i'r dyddiad presennol sef 2022, i ganiatâu o leiaf 10 mlynedd o fywyd gweithredol wedi'r mabwysiadu ac i sicrhau cyflenwad digonol o safleoedd tai. Bydd y Cynllun yn parhau i gael ei fonitro bob blwyddyn ac yn cael ei adolygu yn llawn bob 4 mlynedd.
10/1	Ellen ap Dafydd	Cyngor Cymuned Trawsfynydd	Cytuno gyda'r materion a ystyriwyd fel rhan o'r adolygiad	Nodwyd
10/2	Ellen ap Dafydd	Cyngor Cymuned Trawsfynydd	Cytuno gyda'r Awdurdod ar y diwygiadau sydd eu hangen a pham	Nodwyd
10/3	Ellen ap Dafydd	Cyngor Cymuned Trawsfynydd	Cytuno gyda'r casgliad mai'r weithdrefn ddiwygio ffurf fer ydi'r dull mwyaf addas o symud ymlaen	Nodwyd

11/1	O G Thomas	Cyngor Cymuned Dyffryn Ardudwy	Mae gormod o bwyslais yn cael ei roi ar yr Amgylchedd a Twristiaeth. Mae hyn, erbyn hyn, wedi cael effaith andwyol ar ein pentrefi an trefi cyn belled a mae iaith a diwylliant yn y cwestiwn. Mae ein siopau an hysgolion yn cau. Mae angen llawer mwy o waith o bob math.	Mae' CDLl yn cynnwys polisiau i hwyluso cyfleoedd cyflogaeth newydd o fewn y Parc. Mae polisïau presennol yn y Cynllun hefyd yn ceisio bod mor hyblyg ag y bo modd wrth ganiatáu cyfleoedd newydd ar gyfer prosiectau arallgyfeirio ar ffermydd, ac y mae Polisi 19 yn hyblyg ynghylch lleoliad safleoedd newydd a allant fod o fewn neu'n nesaf at ffiniau aneddiadau tai. Bydd dynodi Parth Menter Eryri ar ddwy safle Gorsaf Bŵer Trawsfynydd a Maes Awyr Llanbedr hefyd yn creu cyfleoedd cyflogaeth ychwanegol.
11/2	O G Thomas	Cyngor Cymuned Dyffryn Ardudwy	Mae'r ffaith ein bod yn y Parc yn ei gwneud yn llawer mwy anodd denu gwaith yma. Mae cael gwaith llawn amser da yn llawer mwy pwysig na dim arall ini fedru ceisio cadw ein bobol ifanc yma.	Noder - gweler sylwadau uchod

Atodiad 3: Tystiolaeth i gefnogi Adroddiad Adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri

Adroddiadau Monitro Blynyddol

Cynllun Datblygu Lleol Eryri - Adroddiad Monitro Blynyddol Anffurfiol Gorffennaf 2011 - 31 Mawrth, 2012
Cynllun Datblygu Lleol Eryri - Adroddiad Monitro Blynyddol 2012-13
Cynllun Datblygu Lleol Eryri - Adroddiad Monitro Blynyddol 2013-14
Cynllun Datblygu Lleol Eryri - Adroddiad Monitro Blynyddol 2014-15

Papurau Cefndirol

Cynllun Datblygu Lleol Eryri - Papurau Cefndirol	**A yw wedi cael ei ddiweddaru?**	**A ystyrir ei fod yn arwyddocaol i gefnogi'r Adroddiad Adolygu?**
Papur Cefndir Amaeth, Tir Comin & Choedwigaeth 1	Na	Na
Papur Cefndir Arfordirol a Morol 2	Do - 2016	Do
Papur Cefndir Treftadaeth Ddiwylliannol 3	Na	Na
Papur Cefndir Asesiad Tir Cyflogaeth 4	Do - 2016	Do
Papur Cefndir Ynni 5	Do - 2016	Do
Papur Cefndir Lleiniau Gwyrdd 6	Na	Na
Papur Cefndir Tai 7	Diweddarwyd yr elfen Tai Strategol - 2016	Do
Papur Cefndir Tirwedd 8	Do – 2016	Do
Papur Cefndir mwynau 9	Do - 2016	Do
Papur Cefndir Asesiad Mannau Agored 10	Na - i gael ei ddiweddaru ochr yn ochr ag Astudiaeth Cynhwysedd Anheddiad yn dilyn y Cam Galw am Safleoedd	Na

Cynllun Datblygu Lleol Eryri - **Papurau Cefndirol**	**A yw wedi cael ei ddiweddaru?**	**A ystyrir ei fod yn arwyddocaol i gefnogi'r Adroddiad Adolygu?**
Papur Cefndir Hamdden a Mynediad 11	Na	Na
Papur Cefndir Asesiad Manwerthu 12	Do – 2016	Ydi
Papur Cefndir Astudiaeth Capasiti Aneddiadau 13	Na - Astudiaeth i gynnwys asesiad o safleoedd newydd posibl, safleoedd ar hap a safleoedd tir llwyd. Astudiaeth i gael ei ddiweddaru ar ôl y Wedd / Cam Galw am Safleoedd.	Na
Papur Cefndir Datblygiad Gofodol 14	Do – ail-ymwelwyd ag o yn 2016	Ydi
Papur Cefndir Cyflwr y Parc 15	2015	Ydi
Papur Cefndir Twristiaeth 16	Do - 2016	Ydi
Papur Cefndir Cludiant a Rhwydweithiau 17	Do – 2016	Ydi
Papur Cefndir Astudiaeth ar Hyfywedd Economaidd Darparu Tai Fforddiadwy 18	Na - astudiaeth hyfywedd cyffredinol ac asesiad hyfywedd safleoedd a ddyrannwyd i'w baratoi a all ddylanwadu ar newidiadau posibl i'r polisïau tai a'r testun cysylltiedig er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyflawni niferoedd y tai sy'n angenrheidiol ar gyfer y farchnad a thai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol.	Na
Papur Cefndir 19 Gwastraff	Do – 2016	Ydi
Papur Cefndir 20 Yr Iaith Gymraeg	Do – 2016	Ydi
Papur Cefndir 21 Parthau Dylanwad	Do - ail-archwiliwyd yn 2016	Ydi

Tystiolaeth ychwanegol / asesiadau

Tystiolaeth Ychwanegol
Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn a Gwynedd 2016
Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Conwy 2016
Asesiad o'r Farchnad Dai Leol Conwy 2013-2018
Amcanestyniadau Poblogaeth ar gyfer Parciau Cenedlaethol (sail 2013)
Amcanestyniadau Aelwydydd ar gyfer Parciau Cenedlaethol (sail 2013)
Ardaloedd Cymeriad Tirwedd a Morlun
Asesiad Sensitifrwydd a Chynhwysedd Tirwedd Ynys Môn, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri (Gillespies, Mawrth 2014)
Cynllun Rheoli Goleuo Awyr Dywyll
Strategaeth Tir Cyflogaeth Rhanbarthol ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Gogledd Cymru Gogledd Cymru (Arup, 2014)
Arolwg Tai a'r Iaith Gymraeg yng Ngwynedd a Môn 2014
Ailystyried AC (SA) i gefnogi Adroddiad Adolygu 2016
Profion Cadernid o sylfaen dystiolaeth i gefnogi Adroddiad Adolygu 2016
Rhoi Gwerth ar Barciau Cenedlaethol Cymru (Arup) 2013

Canllawiau Cynllunio Atodol

Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol canlynol wedi cael eu mabwysiadu yn dilyn mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Eryri:

1. Dylunio Cynaliadwy yn y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru

2. Ystyriaethau Datblygu Cyffredinol

3. Cynllunio a'r Iaith Gymraeg

4. Tai Fforddiadwy

5. Rhwymedigaethau Cynllunio

6. Cadwraeth Natur a Bioamrywiaeth

7. Tirweddau a Morluniau Eryri

Rhan 1 (Cyflwyniad, Cynnwys a Dulliau t1-19)

Rhan 2 (LCA 1 i LCA 6 t20-37)

Rhan 3 (LCA 7 i LCA 12 t38-55)

Rhan 4 (LCA 13 i LCA 18 t56-73)

Rhan 5 (LCA 19 i LCA 22 t74-85)

Rhan 6 (LCA 23 i LCA 25 t86-94)

Rhan 7 (Cyflwyniad Morluniau & SCA 1 i SCA 20 t87-124)

Rhan 8 (SCA 21 i SCA 25 t125-155)

Rhan 9 (SCA 26 i SCA 36 t156-192)

Rhan 10 (Atodiad 1)

8. Llety Ymwelwyr

9. Arallgyfeirio ar Fferm

10. Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel

11. Llety Rhandy

12. Galluogi Datblygu Cynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru

13. Asesiad o Sensitifrwydd a Chapasiti'r Dirwedd (Drafft)

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Wrth ystyried y prif pynciau ar gyfer newid yn yr Adroddiad Adolygu o'r Cynllun Datblygu Lleol (a amlinellir isod) , a oes gennych unrhyw sylwadau ar yr hyn yr hoffech gael ei gynnwys yng nghwmpas y newidiadau arfaethedig a thystiolaeth i gefnogi eich safbwynt.

1. Penderfynu ar ofynion y cynllun tai newydd a sut y gellir diwallu'r rhain trwy ddyrannu safleoedd newydd, addasu ffiniau datblygu tai a chyfraniad hap-safleoedd.

2. Diwygio'r Polisïau Tai ynghyd â'r testun cysylltiedig fel bo'r angen.

3. Ystyried goblygiadau unrhyw bolisïau a chynigion gydag elfen ofodol a diweddaru'r map cynigion yn unol â hynny.

4. Dangos dynodiad Ardal Fenter Eryri ar y Map Cynigion a chyflwyno polisi cadarnhaol a galluogi newydd i reoli datblygiadau newydd o fewn yr Ardal Fenter

5. Adolygu polisïau sy'n ymdrin â mathau o lety twristiaeth a pholisïau cyd-destunol cysylltiedig.

6. Diwygio'r polisi manwerthu i roi mwy o hyblygrwydd o ran defnyddiau amgen.

7. Unrhyw sylw arall ar cynnwys yr Adroddiad Adolygu

Os oes angen cymorth i gwblhau'r ffurflen , e-bostiwch polisi.cynllunio@eryri-npa.gov.uk neu ffoniwch 01766 770274 a gofynnwch i siarad â rhywun yn yr adran polisi